# TGAU CELF A DYLUNIO

## LLYFRYN GWEINYDDU

## 2021-2022


02 COFFRESTRIADAU

03 ADDASIADAU HAF 2022 ac ASESIAD MEWNOL

05 CYMEDROLI

06 LABELU'R GWAITH

07 ADOLYGU'R CYMEDROLI

08 COFRESTRIADAU LLUOSOG

08 YSTYRIAETH ARBENNIG a HYSBYSU AM WAITH CWRS COLL

08 CYMORTH A CHEFNOGAETH

09 AMSERLEN

# A) COFRESTRIADAU

Mae saith Maes Astudio yn TGAU Celf a Dylunio a gellir cofrestru ymgeiswyr ar gyfer hyd at saith Maes Astudio. Bydd gofyn i ganolfannau sicrhau bod y codau cofrestru cywir ar gyfer y teitlau a ddewiswyd yn cael eu mewnbynnu ar gyfer pob ymgeisydd. Os yw ymgeisydd yn trosglwyddo i ganolfan CBAC arall yna mae'n rhaid defnyddio'r un rhif Dangosydd Ymgeisydd Unigryw (UCI).

Mae cod(au) cofrestru'r pynciau fel a ganlyn:

| | Codau Cofrestru | | |
|---|---|---|---|
| Meysydd astudio | Cyfrwng Saesneg | Cyfrwng Cymraeg | Codau Dosbarthu neu Chodau Disgownt |
| Celf, Crefft a Dylunio | 3650QS | 3650CS | 3510 |
| Celfyddyd Gain | 3651QS | 3651CS | 3690 |
| Astudiaethau Beirniadol | 3652QS | 3652CS | 3680 |
| Dylunio Tecstilau | 3653QS | 3654CS | 3650 |
| Cyfathrebu Graffig | 3654QS | 3654CS | 3550 |
| Dylunio Tri Dimensiwn | 3655QS | 3655CS | 3670 |
| Ffotograffiaeth | 3656QS | 3656CS | 3570 |

### Codau Disgownt

Mae'r rheoleiddwyr yn darparu codau disgownt, sy'n cael eu cymhwyso ar draws manylebau'r Sefydliadau Dyfarnu at bwrpasau mesurau perfformiad a chyllido data. Mae'r codau disgownt yn diffinio pa bryd y mae pwyntiau perfformiad manyleb yn cael eu disgowntio yn erbyn teitl arall. Mae'r system ddisgowntio yn effeithio ar y broses o gyfrifo mesurau perfformiad ar gyfer ysgol yn y tablau perfformiad, ond nid yw'n cael effaith ar y dyfarniadau a gwblhawyd gan ymgeisydd unigol nac yn cyfyngu ar y teitlau sydd ar gael iddynt. Ar gyfer ymgeiswyr sy'n ymgymryd â mwy nag un teitl o gyfres Celf a Dylunio, gellir defnyddio'r codau disgownt neu ddosbarthiad uchod i wahaniaethu rhwng pob teitl at bwrpasau cyllido a pherfformio.

Rhaid cyflwyno cofrestriadau terfynol ar gyfer Haf 2022 erbyn **dydd Llun, 21 Chwefror 2022.** Gellir gwneud addasiadau i gofrestriadau hyd at **ddydd Gwener, 18 Mawrth 2022.** Bydd ffi hwyr yn cael ei godi ar unrhyw addasiadau i gofrestriadau ar ôl y dyddiad hwn.

# B) ADDASIADAU HAF 2022 AC ASESIAD MEWNOL

Addasiadau haf 2022 a threfniadau asesu

Gwnaed addasiadau mewn ymateb i benderfyniad y rheoleiddiwr ynghylch addasiadau i asesiadau yn 2022 yng nghyd-destun pandemig y coronafeirws (COVID-19). **Mewn ymateb i ymgynghoriad cyhoeddus, mae'r rheoleiddiwr wedi penderfynu hepgor yr Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol (Uned 2) o TGAU Celf a Dylunio ar gyfer asesiad haf 2022.**

Yn Haf 2022 bydd myfyrwyr yn cael eu hasesu ar y canlynol:
TGAU: Uned 1 Portffolio yn unig (wedi'i farcio allan o 120)

Gellir cyflwyno'r uned ar ffurf llyfr(au) braslunio, llyfr(au) gwaith dylunio, dyddiadur(on) gweledol, portffolio, canlyniad(au) gorffenedig, arddangosfa/arddangosfeydd mowntiedig, cyflwyniad(au) digidol, neu unrhyw gyfuniad o'r ffurfiau hyn. Nid oes unrhyw gyfyngiad ar gynnwys, ffurf na maint y gwaith na faint o dystiolaeth sydd i'w dethol a'i chyflwyno, er y dylai'r pwyslais fod ar yr ansawdd yn hytrach na'r maint (gweler tudalen 13-14 a 32-35 y **fanyleb** am wybodaeth bellach). Mae'r Cynnwys Dangosol ar dudalennau 46-59 y fanyleb hefyd yn darparu arweiniad defnyddiol i athrawon myfyrwyr sy'n ymwneud â'r mathau o dystiolaeth a ddylid eu darparu ar gyfer pob amcan asesu penodol i'r teitl a gofnodwyd. Gweler y ddogfen **Canllaw Addysgu** am wybodaeth bellach ar gynnwys, strwythur a dulliau'r cwrs.

Bydd y **Portffolio yn cael ei farcio allan o 120** (bydd pob un o'r pedwar amcan asesu'n cael eu marcio allan o 30). Y ganolfan fydd yn penderfynu ar y dyddiad cwblhau, gan ystyried terfyn amser cyflwyno marciau mewnol i CBAC.

Dyddiad cau cyflwyno marciau'r ganolfan
Er mwyn caniatáu ar gyfer cynlluniau wrth gefn yn sgil y pandemig, mae angen cyfnod cymedroli hirach ar gyfer asesiadau haf 2022. Bydd y cyfnod estynedig yn galluogi i ymweliadau cymedroli gael eu haildrefnu/ailddyrannu yn ôl yr angen i sicrhau'r asesiad. Felly, mae'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno marciau mewnol i'r wefan ddiogel wedi'i symud ymlaen i **5 Mai** ar gyfer pynciau TGAU Celf a Dylunio.

Er bod y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno marciau 3 wythnos yn gynharach nag arfer, gallai hepgor yr Asesiad wedi'i Osod yn Allanol eleni roi 4 mis o amser ychwanegol i gwblhau'r Portffolio; a gydag un uned yn cael ei chyflwyno yn unig, mae'r baich asesu mewnol i athrawon wedi'i leihau. **Newid dros dro yw hwn i'r dyddiad cau a bydd y dyddiad ar gyfer cyflwyno marciau mewnol yn dychwelyd i 31 Mai ar gyfer TGAU o 2023.**

## Canllawiau asesu Haf 2022 ar gyfer athrawon

Wrth i ymweliadau cymedroli ddychwelyd, bydd y safonau, y marciau a'r deunyddiau asesu arferol yn gymwys i'r Portffolio yn asesiad Haf 2022 a dylai athrawon gyfeirio at yr enghreifftiau, y cynlluniau marcio a'r fideos asesu wedi'u safoni sydd ar gael ar y **wefan** wrth gynnal asesiadau mewnol.

Bydd ein huwch dimau cymedroli Celf a Dylunio yn cyfeirio at archifau ar-lein o enghreifftiau o 2019 fel meincnodau yn ystod Cynadleddau Cymedrolwyr Haf 2022, i sicrhau bod y safonau o'r gyfres safonedig ddiwethaf yn cael eu cynnal. Wrth gynnal asesiadau mewnol, cynghorir canolfannau yn gryf i gyfeirio at y deunyddiau cefnogi asesiadau a ddarperir ar y **wefan** ac adnodd **Bocsgolau**, gan y bydd y rhain yn helpu i sicrhau bod pawb yn gweithredu yn ôl yr un safonau/y safonau priodol.

## System ar gyfer Cyflwyno Marciau

Bydd angen i'r canolfannau gyflwyno pob marc am waith a asesir yn fewnol yn electronig ar y wefan ddiogel erbyn **5 Mai 2022**. Pan fydd y marciau wedi'u llwytho i fyny, bydd y system yn cymhwyso'r fformiwla samplu, sy'n seiliedig ar drefn restrol gyffredinol y cofrestriad cyfan, ac yn nodi'r sampl o ymgeiswyr y mae eu gwaith wedi'i ddewis i'w gymedroli. Bydd taflen farciau ar wahân ar gyfer pob uned. Os nad yw enw a rhif ymgeisydd yn ymddangos ar y wefan ddiogel neu os ydyn nhw'n ymddangos yn y maes astudio anghywir e.e. os cofrestrwyd ymgeisydd ar gyfer Celfyddyd Gain ar y daflen farciau, ni allwch roi marc Celf a Dylunio. Rhaid i'r Ganolfan nodi bod yr ymgeisydd yn absennol ar daflen farciau Celfyddyd Gain. Mae'n rhaid i chi gysylltu â'r Swyddog Arholiadau cyn gynted â phosibl, a fydd yn gwneud y cofrestriad / addasiad(au) priodol. Ar ôl prosesu'r rhain, dylai'r wybodaeth gywir yna ymddangos er mwyn i chi gwblhau mewnbynnu'r marc (fel arfer o fewn 48 awr o brosesu'r cofrestriad / addasiad).

Bydd y Swyddog Arholiadau yn eich canolfan yn gallu mewnbynnu marciau ar ran athrawon neu greu ail gyfrif i'r athrawon priodol.

## Trosi Marciau'n Raddau

Am ffiniau graddau cyfredol, ewch ar dudalen gwybodaeth am **ffiniau graddau ar wefan CBAC. Noder y gallai ffiniau newid yn flynyddol.**

## Dogfennau Asesu

Ar ôl cyflwyno marciau mewnol y ganolfan ar y wefan ddiogel (**erbyn 5 Mai**), bydd y sampl/samplau cymedroli yn cael eu cyfrifo'n awtomatig. **Dylai pob teitl ac uned gael eu marcio a'u cyflwyno i'w cymedroli fel samplau ar wahân.**

Os cofrestrir ymgeiswyr am fwy nag un Maes Astudio e.e. Celfyddyd Gain a Dylunio Tecstilau, mae'n rhaid argraffu taflen farciau gwefan ddiogel ar wahân ar gyfer pob Maes Astudio a phob uned o system y wefan ddiogel. Lle mae mwy nag un athro / darlithydd yn cymryd rhan yn yr asesiad mae'n hanfodol bod safonau asesu yn cael eu cydlynu yn y ganolfan er mwyn cynhyrchu trefn restrol gyffredinol. Unwaith y bydd y marcio wedi'i safoni yn y ganolfan, dylai Pennaeth yr Adran/Pennaeth Celf a Dylunio lofnodi'r taflenni marciau o'r wefan ddiogel yn y gornel chwith ar y gwaelod. Rhaid rhoi trefn restrol ar wahân dim ond os oes mwy nag un Maes Astudio gan ganolfan.

Fodd bynnag, os oes grŵp ar wahân wedi'i gofrestru ar gyfer Maes Astudio arall gan ganolfan e.e. Dylunio 3D ac nid yw'r marciau wedi'u cydlynu yna dylai athro / darlithydd y pwnc lofnodi taflenni marciau'r wefan ddiogel. Rhaid i Bennaeth yr Adran neu aelod arall y staff addysgu ddweud wrth y cymedrolwr pan fydd yn cyrraedd y ganolfan am unrhyw sefyllfa lle nad yw'r marciau wedi'u safoni. Gall wedyn benderfynu peidio â chymedroli'r ganolfan hyd nes y bydd y broses safoni wedi'i chynnal. Gellir codi tâl ar y ganolfan am yr ail ymweliad.
Rhaid i'r ganolfan hysbysu CBAC ar bapur swyddogol y ganolfan neu drwy e-bost swyddogol y ganolfan am unrhyw newidiadau i'r marciau oherwydd gwallau clerigol, gwaith coll, gwaith ychwanegol, ac ati. Dylid hefyd hysbysu'r cymedrolwr sy'n ymweld am wallau o'r fath, a bydd yn diwygio ei waith papur ac yn dychwelyd newidiadau swyddogol y ganolfan i'r marciau i CBAC. Gwneir penderfyniad o ran p'un a ddylid newid marciau'r ganolfan yn ôl disgresiwn CBAC. Bydd y cymedrolwr yn defnyddio taflenni marciau'r wefan ddiogel yn ystod yr ymweliad ar gyfer gwybodaeth y dadansoddiad o'r amcanion asesu ac yn eu dychwelyd ar ôl eu cwblhau. Bydd hefyd angen cyflwyno Fy Nghyflwyniad Creadigol i'r cymedrolwr ar ôl cyrraedd. Rhaid i holl gopïau caled o'r gwaith papur yna gael eu cadw'n ddiogel yn y ganolfan rhag ofn y gwneir unrhyw ymholiadau am ganlyniadau ar ôl hynny.

# C) CYMEDROLI

Trefniadau Ymweliadau Cymedroli

Cymedrolwr ymweld fydd yn gwneud y gwaith cymedroli. Bydd samplau cymedroli yn cael eu dewis yn awtomatig ar ôl cyflwyno marciau mewnol ar gyfer pob teitl a gofrestrwyd. Dylai canolfannau sicrhau bod cofrestriadau terfynol yn cael eu gwneud cyn neu ar 21 Chwefror 2022 er mwyn gallu cwblhau dyraniadau mewn da bryd.
Y cyfnod cymedroli ar gyfer TGAU yw – 9 Mai-13 Mehefin (gyda chynlluniau wrth gefn yn rhedeg tan ddiwedd mis Mehefin).
Bydd y trefniadau hyn yn cael eu hadolygu os bydd cyfyngiadau coronafeirws yn newid.
Bydd y cymedrolwr a ddyrennir i'ch canolfan mewn cysylltiad ym mis Mawrth 2022 i drefnu dyddiad ymweliad cymedroli gyda chi. Cofnodir trefniadau, dyddiadau allweddol ac addasiadau ar dudalennau gwe CBAC TGAU ac UG/Safon Uwch Celf a Dylunio o dan 'Addasiadau Haf 2022'.

Ar ôl cyrraedd y ganolfan, dylid cyflwyno'r dogfennau canlynol i'r cymedrolwr:

- ❖ Copi caled o ffeil mewnbwn marc y ganolfan o'r wefan ddiogel (yn DANGOS PAWB) sy'n dangos enw, rhif yr ymgeisydd a chyfanswm marciau pob ymgeisydd. Dylai hyn gynnwys y sampl o ymgeiswyr i'w cymedroli A'R holl ymgeiswyr yn y garfan a gofrestrwyd ar gyfer yr uned/teitl. (Bydd pob teitl ac uned yn cael eu hasesu'n fewnol a'u cymedroli'n ar wahân gyda dogfennau penodol ar gyfer pob un.)
- ❖ Copi caled o ddadansoddiad o'r amcanion asesu o farciau ar gyfer pob ymgeisydd. Gall canolfannau ychwanegu'r dadansoddiad o amcanion asesu ar gyfer pob ymgeisydd i'r allbrint o'r wefan ddiogel, neu gyflwyno'r wybodaeth hon drwy ffurflen farciau'r ymgeisydd unigol sydd ar gael ar dudalennau gwe TGAU Celf a Dylunio, neu mae fformatau amgen yn dderbyniol, fel taenlenni excel, cyn belled â bod y dadansoddiad o'r amcanion asesu yn cael ei ddarparu ar gyfer pob uned
- ❖ Wedi cwblhau Fy Natganiad Creadigol, ffurflen GDPR a Dilysu ar gyfer pob ymgeisydd.

# CH) LABELU'R GWAITH

Cyfrifoldeb bob canolfan yw sicrhau bod pob darn o waith yn adnabyddus i bob ymgeisydd. Mae **templedi labelu** ar gael ar-lein. Nid yw'r dogfennau hyn yn orfodol a gall canolfannau ddefnyddio dulliau eraill o nodi gwaith.

Mae'n rhaid i gopïau cyflawn o'r dogfennau Fy Natganiad Creadigol/ dilysu/ GDPR (ar gael ar-lein) canlynol fod ar gael wrth i'r gwaith gael ei gymedroli.  Mae'r ffurflenni hyn yn orfodol ar gyfer pob ymgeisydd.

Pan fo **trefniant consortiwm** wedi'i ddangos, bydd angen i'r ganolfan sy'n addysgu gymhwyso'r fformiwla ar gyfer dewis y sampl â llaw gan ddefnyddio'r fformiwla isod.

Dylai cydlynwyr consortiwm gysylltu â CBAC er mwyn trefnu sampl briodol ar draws pob un o'r canolfannau sy'n ymwneud â'r consortiwm a darparu gwybodaeth fanwl ynghylch ble bydd y gwaith yn cael ei gymedroli.

| Cyfanswm nifer yr ymgeiswyr | Gwaith i'w gyflwyno (mae'r rhifau'n cyfeirio at y drefn restrol) |
|---|---|
| 1 - 10 | Pob un |
| 11 - 19 | yr ymgeisydd 1af a phob yn ail (1, 3, 5, 7 ac ati) yn ogystal â'r ffolder â'r sgôr isaf a ffolderi ychwanegol yn ôl yr angen (gan adlewyrchu'r amrediad o farciau) er mwyn gwneud cyfanswm sampl o 10. |
| 20 - 45 | yr ymgeisydd 1af a phob pump (1, 6, 11, 16 ac ati) yn ogystal â'r ffolder â'r sgôr isaf a ffolderi ychwanegol yn ôl yr angen (gan adlewyrchu'r amrediad o farciau) er mwyn gwneud cyfanswm sampl o 10. |
| 46 - 99 | yr ymgeisydd 1af a phob unfed ymgeisydd ar ddeg (1, 12, 23, 34 ac ati) yn ogystal â'r ffolder â'r sgôr isaf a ffolderi ychwanegol yn ôl yr angen (yn adlewyrchu'r amrediad o farciau) i ffurfio sampl cyfan o 10. |
| 100 - 199 | yr ymgeisydd 1af a phob pedwerydd ymgeisydd ar ddeg wedyn (1, 15, 29, 43) yn ogystal â'r ffolder â'r marc isaf a ffolderi ychwanegol yn ôl yr angen (gan adlewyrchu'r amrediad  o farciau) i ffurfio sampl cyfan o 15. |
| 200 - 299 | yr ymgeisydd 1af a phob pymthegfed ymgeisydd (1, 16, 31, 46 ac ati) yn ogystal â'r ffolder â'r marc isaf a ffolderi ychwanegol yn ôl yr angen (gan adlewyrchu'r amrediad o farciau) i wneud sampl sy'n gyfanswm o 25. |
| Dros 300 | yr ymgeisydd 1af a phob ugeinfed ymgeisydd wedyn (1, 21, 41, 61 ac ati) yn ogystal â'r ffolder â'r marc isaf a ffolderi ychwanegol fel y bo angen (gan adlewyrchu gwasgariad y marciau) i ffurfio sampl cyfan o 25. |

Am wybodaeth bellach ar ddethol y sampl cyfeiriwch at y **Llawlyfr Asesu Mewnol.**

Atgoffir canolfannau y gall cymedrolwyr, yn ogystal, ddethol ymgeiswyr y tu allan i'r fformiwla uchod i wirio cysondeb y marcio. Nid oes rhaid cyflwyno'r gwaith ychwanegol a ddewisir ond rhaid iddo fod ar gael i'w gymedroli ar gais. Os nad yw'r gwaith ar gael os gwneir cais, gellir codi tâl ar y ganolfan am ail ymweliad.

Disgwylir y bydd canolfannau yn cynorthwyo'r broses gymedroli trwy drefnu i osod y gwaith yn y fath fodd fel y gellir ei weld yn rhwydd ar gyfer ei farcio. Rhaid rhoi digon o amser heb amhariad i'r cymedrolwr i gwblhau'r gwaith a rhaid iddo hefyd gael digon o le i hwyluso'i asesiad o waith yr ymgeiswyr a dylai fod modd iddo fynd at y gwaith hwnnw hefyd.
Pan fydd yr ymarfer cymedroli'n digwydd, bydd cymedrolwyr yn asesu'r Portffolio yn unig eleni. Mae pob teitl yn cael ei drin ar wahân at bwrpasau graddio a dyfarnu. Gall canolfannau gyflwyno gwaith naill ai fel arddangosiadau ar wahân o unedau/teitlau, neu fesul arddangosiadau ymgeisydd. Gellir cyflwyno elfennau ar wahân ar drefn restrol, os yw canolfannau'n dymuno gwneud hynny, ar yr amod bod yr ymgeiswyr ym mhob sampl yn cael eu nodi'n glir at bwrpasau cymedroli.

Bydd gwaith y bydd cymedrolwyr yn ei gymryd yn cael ei ddychwelyd cyn gynted â phosibl ar ôl cymedroli a dyfarnu (efallai bydd rhywfaint o waith yn cael ei gadw at ddigwyddiadau Datblygu Proffesiynol parhaus gyda chytundeb y Ganolfan).

# D) ADOLYGIADAU CYMEDROLI

Cyhoeddir y canlyniadau a'r ystadegau ar gyfer 2022 i ganolfannau ar ddydd Iau 25 Awst.

Dylai canolfannau sy'n dymuno cyflwyno adolygiad o'r cymedroli wneud cais ar-lein trwy'r wefan ddiogel. Rhaid i'r cais hwn gael ei dderbyn erbyn 21 Medi 2022. Darllenwch y weithdrefn yn fanwl cyn gwneud y penderfyniad hwn gan fod Gwasanaeth 3 yn golygu cwblhau ail-gymedroli'r sampl gwreiddiol a gymedrolwyd yn llwyr; dyma pam na chaiff ymgeiswyr gael mynediad at eu gwaith ar ôl dyddiadau cwblhau canolfannau. Nid yw'r gwasanaeth ar gael ar gyfer unrhyw elfen lle derbyniwyd marciau'r ganolfan heb eu newid. Cost y gwasanaeth hwn fydd tua £320 am bob ymweliad canolfan waeth faint o unedau y gwneir cais yn eu cylch. Noder na fydd ffioedd yn cael eu codi os yw marciau'r ganolfan yn codi o ganlyniad i'r adolygiad o'r cymedroli. Nid yw cysyniad yr ymgeisydd yn ofynnol ar gyfer Gwasanaeth 3 oherwydd gellir gostwng marciau'r ymgeisydd ond NI fydd ei raddau pwnc yn gostwng yn y gyfres dan sylw. Gellir dod o hyd i wybodaeth bellach ar ein gwefan o dan Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau.

Cyhoeddir tystysgrifau i ganolfannau ar ddechrau mis Tachwedd 2022.

# DD) COFRESTRIADAU LLUOSOG

Lle y cofrestrir ymgeiswyr am fwy nag un Maes Astudio, rhaid i'r cymedrolwr weld eu gwaith. Er enghraifft, os yw ymgeisydd wedi'i gofrestru ar gyfer Dylunio Tecstilau a Chyfathrebu Graffig yna rhaid i'r cymedrolwr weld yr elfennau ar gyfer pob Maes Astudio. Bydd y cymedrolwr ddim ond yn cymedroli gwaith yn y sampl(au) a gynhyrchir gan y wefan ddiogel. Efallai y byddan nhw am gael gweld a marcio gwaith ychwanegol os ydyn nhw o'r farn y bydd gwneud hynny o gymorth i'r broses gymedroli.

# E) YSTYRIAETH ARBENNIG A HYSBYSU AM WAITH CWRS COLL

Rhaid i ganolfannau sydd am eu hystyried am yr uchod lenwi ffurflen berthnasol y Cyd-gyngor CGC/SC Ffurflen 10 Cais am Ystyriaeth Arbennig a Ffurflen 15 CGC/LCW Hysbysiad o Waith Cwrs Coll. Byddwn yn annog canolfannau i ychwanegu nodyn ar bapur â phennyn y ganolfan yn ychwanegol i naill un neu'r ddwy ffurflen hyn, sy'n dangos safle'r ymgeisydd o fewn trefn restrol y Portffolio. Mewn geiriau eraill, mae'n gymorth mawr wrth ymdrin â'r ceisiadau hyn cael gwybod sut y gallai'r ymgeisydd fod wedi cyflawni yn ôl 'amgylchiadau arferol' heb golled, salwch neu anaf.

# F) CYMORTH A CHEFNOGAETH

Manylion cyswllt defnyddiol:

| Cyfeiriad: CBAC, 245 Rhodfa'r Gorllewin, Caerdydd, CF5 2YX | | |
|---|---|---|
| Mari Bradbury | (029)22404304 | celfadylunio@cbac.co.uk |
| Sara Evans | (029)22404304 | celfadylunio@cbac.co.uk |
| Adran Gofrestriadau | (029)20265193 | cofrestru@cbac.co.uk |
| Adran TGAU | (029)20265082 | tgau@cbac.co.uk |
| Is-adran DPP | (029)20265018 | dpp@cbac.co.uk |
| Ymholiadau Cyffredinol | (029)20265000 | |

# FF) DYDDIADAU ALLWEDDOL

| | |
|---|---|
| Cofrestriadau | 21 Chwefror 2022 |
| Newidiadau (cyfnod o 4 wythnos heb godi tâl) | 18 Mawrth 2022 |
| Dyddiad cau cyflwyno marciau'r ganolfan | 5 Mai 2022 |
| Ffenestr gymedroli | 9 Mai - 13 Mehefin 2022 |
| Cyhoeddi Canlyniadau | 25 Awst 2022 |
| Dosbarthu Tystysgrifau | Tachwedd 2022 |